

# CYFLAWNI LLWYDDIANT AR GYFER BWYD A DIOD CYMRU

Mae diwydiant cynhyrchu bwyd a diod Cymru yn stori lwyddiant wych, gyda bron i 600 o fusnesau yn cyflogi dros 24,000 o bobl. Mae ein llwyddiant yn bennaf oherwydd y bobl weithgar ac angerddol sy'n rhan o'n sector bywiog. Wrth i'r sector wynebu her adferiad, rydym wedi ymrwmo i weithio gyda Llywodraeth nesaf Cymru i wireddu potensial y sector.

Gall Llywodraeth nesaf Cymru ein cefnogi i wireddu'r nod hwn yn ystod Senedd nesaf Cymru:

- ✓ Cefnogi twf ein diwydiant bwyd a diod hanfodol
- ✓ Gweithio gyda'r sector i weithredu mesurau ystyrlon ac ymarferol i leihau gordewdra
- ✓ Cofleidio heriau a chyfleoedd adferiad gwyrdd

## Cefnogi twf ein diwydiant bwyd a diod hanfodol



✓ **Rhoi cynaliadwyedd economaidd wrth wraidd llunio polisiâu Cymru.** Wrth ystyried rheoliadau newydd ar gyfer busnesau, dylai Llywodraeth nesaf Cymru ddadansoddi sut y byddant yn effeithio ar gynaliadwyedd economaidd y sector. Byddai'r egwyddor hon yn gofyn i edrych yn gyfannol ar bolisiâu eraill sy'n cael eu cyflwyno gan Adrannau eraill (yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU) nawr ac yn y dyfodol i sicrhau nad yw'n anfantais i fusnes.

✓ **Hyrwyddo gyrfaoedd a phrentisiaethau ym maes cynhyrchu bwyd a diod.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r sector wedi dangos ei wytnwch anhygoel wrth sicrhau digon o fwyd i'r genedl, gan hefyd sicrhau bod ein safleoedd gweithgynhyrchu yn ddiogel. Gellir marchnata hyn yn rhagweithiol i'r genhedlaeth nesaf gan arwain mwy o bobl ifanc Cymru i chwilio am y cyfleoedd gwych sydd gan y sector i'w chynnig. Bydd hyn yn sicrhau cronfa o dalent gryfach yn y dyfodol a fydd yn hanfodol ar gyfer hyfywedd tymor hir y sector.

✓ **Cefnogi busnesau bwyd a diod i fachu cyfleoedd allforio newydd.** Bydd allforion bwyd a diod yn allweddol i adferiad y sector. O ystyried y cyfleoedd allforio newydd y mae diwedd y cyfnod trosglwyddo yn eu cyflwyno, dylai Llywodraeth nesaf Cymru ddarparu cefnogaeth bwrpasol i fusnesau fel y gallant wneud y mwyaf o'u potensial ar gyfer twf proffidiol ac edrych i gyfuno ymdrechion cymheiriaid yn y DU i wneud y mwyaf o'r gefnogaeth a gynnigir i weithgynhyrchwyr o Gymru.

✓ **Cryfhau gwytnwch y sector trwy ysgogi busnesau i fuddsoddi mewn technoleg.** Fel y mae pandemig Covid-19 wedi dangos, mae cyflwyno a chofleidio dyfodol awtomeiddio, digideiddio a data yn allweddol i wytnwch gweithgynhyrchwyr a bydd yn creu sector â sgiliau uwch, gyda mwy o botensial i wella cynhyrchiant ac ychwanegu gwerth at gynhyrchion.

## Gweithio gyda'r sector i weithredu mesurau ystyrlon ac ymarferol i leihau gordewdra



- ✓ **Annog dietau iachach trwy ymyrraeth gadarnhaol gan y llywodraeth.** Mae cynyddu ffibr, ffrwythau a llysiau mewn dietau pobl yn hanfodol i atal clefyd cronig a dyma hefyd lle gwelwn y gwahaniaethau mwyaf rhwng dietau'r cyfoethog a'r tlawd. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru weithio gyda'r diwydiant bwyd i roi'r dull hwn ar waith.
- ✓ **Diystyru trethiant pellach ar fwyd a diod.** Mae'r gostyngiad llwyddiannus mewn halen, siwgr a chaloriau mewn bwyd yn ganlyniad blynyddoedd o ailfformiwleiddio arloesol. Mae'r sector yn parhau i geisio canfod atebion i'r her barhaus hon, fodd bynnag, mae'n aml yn heriol yn dechnegol ailfformiwleiddio ryseitiau. Byddai gosod trethi ac ardollau yn arwain at gostau uwch i ddefnyddwyr.

- ✓ **Cefnogi busnesau Cymru i ailfformiwleiddio a hyrwyddo eu cynhyrchion.** Bydd cyllido a chynyddu mynediad at gymorth technegol yn ysbrydoli cynhyrchion iachach sy'n ymddangos ar silffoedd yng Nghymru ac yn cadarnhau enw da Cymru am opsiynau bwyd maethlon o ansawdd uchel. Er mwyn cefnogi hyn, dylai Llywodraeth nesaf Cymru roi'r sicrwydd ariannol i'n diwydiant i hwyluso buddsoddiad mewn ailfformiwleiddio cynnyrch newydd a phresennol trwy sicrhau na chyflwynir unrhyw gyfyngiadau marchnata pellach na threthi maetholion fyddai'n cyfyngu ar ddewisiadau i ddefnyddwyr Cymru ac yn tansellio ymdrechion ailfformiwleiddio blaenorol.

## Cofleidio heriau a chyfleoedd adferiad gwyrdd



- ✓ **Gwella isadeiledd ailgylchu i ddal deunyddiau gan gynnwys cartonau a phlastig hyblyg sy'n deillio o aelwydydd a busnesau.** Ar hyn o bryd nid yw'r deunyddiau hyn yn cael eu hailgylchu'n llwyr yng Nghymru ac mae'n cynnig cyfle i Lywodraeth nesaf Cymru gymryd camau pellach tuag at fod yn genedl dim gwastraff.
- ✓ **Cyflwyno cynllun dychwelyd blaendal yng Nghymru.** Dylai Llywodraeth nesaf Cymru weithio gyda diwydiant i ddysgu o'r profiadau rhyngwladol wrth weithredu cynllun dychwelyd blaendal i hybu cyfraddau ailgylchu cynwysyddion diodydd. Rhaid i unrhyw gynllun dychwelyd blaendal yng Nghymru fod yn effeithlon, yn syml ac yn ymarferol i ddefnyddwyr a diwydiant.
- ✓ **Cefnogi'r gadwyn gyflenwi bwyd a diod i ddod yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol.** O ystyried yr ystod ysgubol o opsiynau y gall busnesau bwyd a diod eu datblygu i ddod yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd, rhaid i Lywodraeth Cymru wneud dewisiadau polisi

clir a chyson ochr yn ochr â mecanweithiau cymorth a chanllawiau tymor hir i alluogi busnesau i fod â'r hyder i fuddsoddi.

- ✓ **Canolbwyntio ar atebion penodol ar gyfer dewisiadau amgen i becynnu anodd ei ailgylchu.** Wrth ymchwilio i ddewisiadau dylunio pecynnu newydd, mwy cynaliadwy yn amgylcheddol, dylai'r cynnyrch sydd wedi'i gynnwys fod ar flaen y meddwl. Rhaid i ymchwil nodi'r anghenion pecynnu sydd gan gynyrrch i sicrhau hyfywedd unrhyw ddatrysiaid amgen.
- ✓ **Creu cronfa ddatgarboneiddio bwrpasol ar gyfer sector bwyd a diod Cymru.** Ar gyfer y sector, mae'n hanfodol cael cyllid ar gyfer prosiectau arddangos allweddol ar dechnolegau newydd, megis gyda hydrogen, opsiynau i drydaneiddio gwres neu ar gyfer prosesau sy'n osgoi cynhyrchu gwres, i fynd i'r afael â phryderon ynghylch effeithiau posibl ar ansawdd a chost y cynhyrch.

### Cysylltwch â ni

FDF Cymru - Julie Byers, [Julie.Byers@fdf.org.uk](mailto:Julie.Byers@fdf.org.uk)  
 BSDA - Lewis Van Diggele, [Lewis@britishsoftdrinks.com](mailto:Lewis@britishsoftdrinks.com)